

Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 28<sup>th</sup> September 2015** at 6.30pm

**PRESENT:** - Her Worship the Mayor, Councillor Mrs E Butler  
The Deputy Mayor, Councillor Dewi Williams  
Councillors :- Mrs L Day (Chairman) Mrs J Marshall N Pickavance  
Mrs J Forsyth R K Marshall G O Roberts  
J Wynn Jones J M Martin D Llewelyn

Officer : Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

#### **98/15 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors D Madge (Hospital) and Huw Williams (Unwell).

#### **99/15 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

None.

#### **100/15 URGENT BUSINESS**

Her Worship The Mayor congratulated everybody involved with the Business Improvement District proposal following the recent vote in favour of going ahead with the proposal. It was noted that this was a great opportunity for the business community to lead on investment and additional improvement to make a real difference to Bangor in the future. Members joined with the Mayor in congratulating the individuals who had worked so hard in this proposal.

#### **101/15 BANGOR PIER– HLF APPLICATION - Presentation by Jim O'Rourke**

The Chair of the Meeting introduced Mr Jim O'Rourke to the Committee who thanked Members for their welcome and the invitation to make the presentation.

Firstly Mr O'Rourke expressed everyone's disappointment with the HLF decision although this was almost expected and explained as being a strong possibility previously, the essential reason for the decision was lack of overall funds available to HLF.

HLF were not convinced by the urgent case for works as an expert report stated that the Pier was in moderate condition but the proposal was to overhaul and refurbish the whole of the Pier. HLF also needed reassurances that the cost would not significantly increase as had happened in other pier refurbishments. Also the long term sustainability appeared to be partly dependent upon unfunded works i.e. improvement to the Café and toilets also turnstiles and other works on additional kiosks which had been delayed to a further phase to keep the costs down. However, HLF thought these were needed to maximise the income after phase 1.

Mr O'Rourke suggested that the HLF Officers had encouraged the City Council to make a new application, in this a more detailed engineer's report would be required based on the examination of the structure under the deck to assess rust and condition of the steel and then a re-application for funds would need to be processed and proposed works identified to deal with most urgent works needed to renovate the Pier.

It was suggested that undertaking some of the work as a test section to show that the Council had suitable methods and techniques to identify key tasks and how they could be done by a directly employed workforce this could take out a huge element of risk of costs running out of control with the contractor with the possibility of local people being employed and trained etc. These costs would be incurred by the City Council prior to any grant monies but this in turn would present the strongest possible case and in reality there was a good chance if you had a development grant that you could then proceed to have the full grant for the delivery phase actually accessing the system was a major challenge with the round 1 application for development funding.

In terms of time scales an engineer's report and doing a test section would take some time, so the earliest possible application would be in March 2016 but this could be co-ordinated with a Coastal Communities Fund Application at the same time which may be beneficial to delay until June 2016 to make a stronger case for the availability of match funding. Another possibility was to apply to HLF UK on a project level, however it is pretty clear that this would have to be a much bigger project to compete. This would involve a significant cost with limited chance of a successful outcome so this course of action was not recommended.

Mr O'Rourke recommended the following actions in order to proceed :-

- i) To allow further funds for consultant report to develop the new application – essentially for Engineers to prepare a detailed report on the Pier's condition, most of the work in the previous application would be re-used but perhaps with greater emphasis on those issues highlighted by HLF;
- ii) Agreement to do test works on a section of the Pier using Council staff with some contractors support;
- iii) Agreement that using volunteers as part of a management group to organise activities on the Pier such as entrance fees etc was supported as a way to strengthen incomes and enable a sustainable future which was less dependant funds;

- iv) Agreement that an application should be presented to the Coastal Communities Fund when the opportunity arose and that an HLF application should be presented as a parallel application; and
- v) Support for the approach as outlined above.

Members considered the report and thanked Mr O'Rourke for his presentation. It was noted that there were previous reports some of which were confidential the details of which had not been made available to Members of the Council. Members expressed disappointment but recognise that the original HLF application may have been too ambitious in its request over the funding and considered the encouragement of volunteers to be a useful activity that could bear fruit in the future, it was noted that this was a particularly strong point when HLF were considering applications and it would also encourage community ownership of this facility within the City.

Members were convinced that there was needful work on the Pier and that any application should concentrate on the urgent works as required. It was also noted that there was a reserve in the budget of the City Council to enable some or all of these works to take place and that match funding would certainly strengthen the application as would community involvement and any sponsorship which may become available.

Members considered the original proposal of a Pontoon element to the project, however it was noted that HLF did not see this as a possibility and had rejected it as unrealistic however there was a possibility that the slipway adjoining could be renovated in the future and this could be a subject of the Coastal Communities Fund grant application which would be submitted in tandem with any HLF bid.

At this point in the Meeting Mr Jim O'Rourke left the Chamber and was thanked by the Chair.

Members asked for clarification from the Town Clerk as to what was the best course of action both at this juncture and in the short and mid-term. The Town Clerk explained that there was no decision necessary this evening but a general steer on the way forward would be useful in terms of forward planning.

Some concern was expressed that the amount of public money that had been used or would be used in employing consultants on this matter but there was a general agreement that something needed to be done in the short or medium term to improve the Pier's condition and general maintenance.

**RESOLVED** that the Town Clerk be asked to prepare a report for the Committee, by the next meeting if possible, giving a critical analysis of the funding or proposed funding of the Pier repairs and a considered approach as to whether to re-submit a HLF bid albeit a significantly amended as suggested as Mr O'Rourke or whether it would be possible to undertake the work as an incremental repair and replace schedule funded by solely by the City Council's reserves. The report should also indicate some estimated ballpark figures for consultation engineers and the works themselves.

#### **102/15 ANNUAL RETURN COMPLETION OF AUDIT 2014/2015 –**

The Town Clerk reported that he had received a letter from the External Auditor Hacker Young, Chester, which had indicated that the Annual Audit of Account and Governance Statement for the year 2014/2015 was now complete. The Notice of Completion of Audit & Statement of Assurance had been received which was given a clean bill of health by the Auditor.

The Town Clerk further reported that a letter had been received from the Wales Audit Office identifying the new appointed External Auditor. The Town Clerk further explained that under the terms of the Auditor General's Report to the audit Arrangements from 2015/16 would involve a greater focus on Governance with extended Annual Governance Statement having new sections highlighting thematic areas for review at all Councils based on concerns from Audit findings in Wales.

In order to allow Local Councils to develop and amend their Governance arrangements they would be notified in advance on specific areas that would form part of the thematic review each year this would allow councils to identify areas where they need to improve their arrangements and make any necessary improvement at the start of the financial year.

It was anticipated that this should not require Councils to carry out any substantial additional work however, this had not been quantified in detail the focus for 2015/16 would be on budget setting, monitoring of budgets and the engagement of Internal Auditor (which should be done annually).

**RESOLVED** that the Report of the Town Clerk be Noted.

#### **103/15 REPORTS/DOCUMENTS RECEIVED**

- (a) Report for the Ministers Office for Public Services – Welsh Government. As prepared by the Secretary to the North and Mid Wales Association of Local Councils
- (b) Public Service Ombudsman for Wales – Report 2014/2015

Members noted that the above documents are available for inspection at the Council Offices and on the relevant web sites.

#### **104/15 TOWN CENTRE PARTNERSHIP**

The Town Clerk reported that a meeting of the Partnership had been held on 23<sup>rd</sup> September which had included a stakeholder analysis and development brief, a framework for Bangor Development Commission, re-distribution of TCP funds discussion, and future events. He informed Members that the next phase of the TCP's programme was underway which involved jointly developing a brief for consultants

It was hoped that the commission would commence in February 2016.

**RESOLVED** that the Report be received, progress be noted and that the Council continue to support and endorse the work of the Partnership.

#### **105/15 FINANCIAL MATTERS - Quarterly Accounts**

Members received the Quarterly Accounts for April, May, June 2015 which was presented in the new format as produced by the new Omega Financial Software package. Members raised a number of questions to which the Town Clerk responded, he also commented that the new financial system was working well and would be a valuable asset in the preparation, monitoring and completion of the Annual Accounts, Bank Reconciliation and VAT returns.

#### **106/15 THE GWYNEDD CHALLENGE**

The Chair updated members on the Public Consultation being carried out by Gwynedd Council to decide which local services to protect and which they would unfortunately have no option but to cut given the current financial restraints. Local people would have an opportunity to have their say on these crucial decision either on line or through drop in sessions and evening public forums.

It was noted that the drop in session for Bangor would be on November 23<sup>rd</sup> 10am to 1pm in the Deiniol Shopping Centre and the evening public forum on 12 October at 6.45pm at Ysgol Tryfan.

**RESOLVED** that details of the Gwynedd Challenge Public Consultation be noted.

#### **107/15 OUR LADY'S SCHOOL BOARD OF GOVERNORS**

It was noted that the City Council now had a vacancy as former Councillor Rhys Taylor had resigned.

**RESOLVED** that the Town Clerk should write to all members advising them of vacancies on outside bodies for every Member of the Council to have the opportunity to express interest in being nominated and that this matter be further considered at the next meeting of the Committee.

#### **108/15 CO-OPTION**

In accordance with Welsh Government advice the City Council considered appointing a nominated Student Union Representative from the University i.e. representing young people in the community. It was pointed out that this opportunity should not be restricted to a student union representative but offered to a wider group of young people and would be subject to a change in Standing Orders. After some discussion it was considered prudent to write to all Secondary Schools within the City as well as Coleg Menai and the University to ascertain whether there was any interest in this course of action.

**RESOLVED** that the Town Clerk write to all educational establishments in the City where young people over the age of 16 would be able to express any interest in being nominated as a "young persons representative" on the City Council without voting rights.

---

The Meeting ended at 8.45pm

---

Chairman

Cofnodion **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Dydd Llun, 28<sup>ain</sup> o Fedi 2015** am 6.30 y.h.

**PRESENNOL :-**

Ei Theilyngdod y Maer, y Cyngorydd	Mrs Mrs E Butler		
Y Dirprwy Faer y Cyngorydd	Dewi Williams		
Y Cyngorwyr	Mrs L Day (Cadeirydd)	Mrs J Marshall	N Pickavance
	Mrs J Forsyth	R K Marshall	G O Roberts
	J Wynn Jones	J M Martin	D Llewelyn

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

### 98/15 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwyr D Madge (Ysbyty) a Huw Williams (Salweh).

### 99/15 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim

### 100/15 MATERION BRYS

Llongyfarchodd y Maer pawb a oedd wedi bod yn ymwneud ar cais am Ardal Gwella Busnes a'r bleidlais gadarnhaol i symud ymlaen a ddigwyddodd yn ddiweddar. Nodwyd bod hwn yn gyfle arbennig i'r gymuned fusnes i arwain ar fuddsodiant a gwelliannau a fuasai yn gwneud gwir wahaniaeth i Fangor i'r dyfodol. Ymunodd yr Aelodau a'r Maer yn llongyfarch yr unigolion a oedd wedi gweithio mor galed dros y cynnig.

### 101/15 CYFLWYNIAD GAN JIM O'ROURKE- Ar gais HLF ar gyfer y Pier

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Mr Jim O'Rourke i'r cyfarfod ac fe fynegodd yntau ei ddiolch am y croeso a'r gwahoddiad i wneud y cyflwyniad.

Yn gyntaf mynegodd Mr O'Rourke siomedigaeth pawb gyda penderfyniad CTL er bod hyn wedi ei ddisgwyl ac fel y mynegwyd yn flaenorol y buasai yn bosiblwydd cryf. Y rheswm pennaf oedd diffyg arian ar gael i CTL.

Nid oedd CTL wedi eu darbwyllo bod yr angen yn argyfyngus gan bod adroddiad yr arbennigwr yn dweud bod y Pier mewn cyflwr go lew a bod y cais am ail-wneud y pier i gyd. Mynegodd CTL hefyd eu bod angen eu bodloni na fyddai costau yn cynnyddu yn sylweddol fel oedd wedi digwydd gyda achosion tebyg. Mi oeddent hefyd yn amau cynaladwyedd hir dymor y cais gan bo rhai agweddau yn rhannol ddibynnol ar waith nad oedd eto heb ei gostio h.y. gwelliannau i'r bwyty a thoiledau hefyd y tollborthau a'r gwaith ychwanegol i'r cabanau, rhain i gyd wedi eu gohirio i gadw y gost i lawr. Er hyn credai CTL y dylai rhain gael eu cynnwys i uchafu yr incwm o Rhan 1 o'r gwaith.

Awgrymodd Mr O'Rourke bod swyddogion CTL wedi annog Cyngor y Ddinas i wneud cais newydd. Dylai'r cais gynnwys adroddiad peiriannydd newydd mwy cynhwysfawr a fyddai yn cynnwys archwiliad oddi tan y pier i asesu cyflwr y gwaith dur a faint o rydu oedd yn bodoli. Yna gellid ail-cyflwyno cais am arian a fyddai yn egluro yn fanwl pa waith argyfyngus oedd ei angen i atgyweirio y Pier.

Fe awgrymwyd y dylid gwneud rhan o'r gwaith ar un rhan o'r pier i ddangos bod gan y Cyngor ddulliau priodol a sgiliau i ddarganfod y tasgau allweddol. Gallai hyn gael ei wneud gan weithlu wedi eu cyflogi yn uniongyrchol a buasai hyn yn dangos fel y gellid rheoli y costau gan hefyd roddi cyfle o gyflogaeth a hyfforddiant i bobol leol. Byddai y costau yma gan Cyngor y Ddinas cyn derbyn unrhyw grant yn rhoi achos cryf iawn mewn realaeth i dderbyn grant datblygol a fyddai yn arwain i'r grant llawn yn y cyfnod cyflawni. Mae cael mynediad i'r system grantiau yn y rownd gyntaf yn dipyn o her.

O ran amserlen buasai adroddiad peirianydd a gwneud rhan prawf o'r pier gymeryd dipyn go lew o amser ac felly y cynharaf y gellir gwneud cais fuasai yn Mawrth 2016. Gallai cais gael ei wneud ar y cyd i Gronfa Cymunedau yr Arfordir ac felly buasai gohirio tan Mehefin 2016 yn gwneud cais cryfach a hefyd yn gwneud y cais am gyd-arianu yn gryfach. Posibilwydd arall fuasai gwneud cais i CTL UK fel prosiect, ond mae yn amlwg y buasai rhaid i'r prosiect fod dipyn mwy na'r presennol i fod yn gystadleuol. Buasai hyn yn golygu costau ychwanegol gyda llai o siawns o lwyddo ac felly nid yw hyn yn cael ei argymhell.

Awgrymodd Mr O'Rourke gwneud y canlynol i symud ymlaen:-

- i) Gollwng mwy o gyllid i arianu adroddiad i ddatblygu cais newydd – mae'n hanfodol bod peirianwyr yn paratoi adroddiad manwl o gyflwr y Pier, gellir defnyddio rhan helaeth o'r gwaith yn yr hen adroddiad ond efallai gyda mwy o bwyslais ar y pethau a amlygwyd gan CTL.
- ii) Cytuno i wneud gwaith prawf ar ran o'r Pier gan ddefnyddio staff y Cyngor gyda chymorth contractwyr.
- iii) Cytuno i ddefnyddio gwirfoddolwyr fel rhan o'r grwp rheoli fydd yn trefnu gweithgareddau ar y Pier a buasai hyn yn cryfhau incwm a gwneud y pier yn fwy cynaladwy i'r dyfodol.

- iv) Cytuno y dylid gwneud cais i Gronfa Cymunedau Arfordirol pan yn briodol a buasai cais i CTL yn cael ei chyflwyno yr un pryd.
- v) Bod yna gefnogaeth i'r uchod.

Bu i'r aelodau dderbyn yr adroddiad a diolch i Mr O'Rourke am ei gyflwyniad . Nodwyd bod yna adroddiadau wedi bod yn y gorffennol a bod rhai ohonynt wedi bod yn gyfrinachol ac nad oeddent wedi cael eu cyflwyno i Aelodau y Cyngor. Mynegodd Aelodau eu siomedigaeth nad oedd y cais wedi llwyddo ond efallai bod y cais CTL wedi bod yn rhu uchelgeisiol yn arianol. Mynegwyd bod yr annogaeth i wirfoddolwyr fod yn addawol a allai ddwyn ffrwyth yn y dyfodol, nodwyd bod hyn y bwynt cryf gyda CTL pan meant yn asesu ceisiadau a hefyd y buasai yn annog perchnogaeth gymunedol o'r adnodd yn y Ddinas.

Argyhoeddwyd yr Aelodau bod yna waith angen ei wneud ar y Pier ac y dylai unrhyw gais ganolbwyntio ar y gwaith argyfyngus. Fe nodwyd hefyd bod yna arian wrth gefn yn nghyllideb Cyngor y Ddinas i wneud rhan neu y cyfan o'r gwaith yma. Buasai cael arian cyfatebol yn cryfhau y cais fel y buasai perchnogaeth gymunedol a hefyd unrhyw nawdd a ellir ei gael.

Cafwyd trafodaeth ar yr elfen o gael pontwn ar ben y pier ond nodwyd nad oedd CTL yn gweld hyn fel posibilrwydd a'i fod wedi ei wrthod gan nad oedd yn ymarferol .Er hyn mi oedd yna bosibilrwydd y buasai y lanfa yn cael ei hadnewyddu yn y dyfodol a gallai hyn fod yn gais i Gronfa Cymunedau Arfordirol ar yr un pryd ar cais i CTL.

Ar hyn fe adawodd Mr O'Rourke y siambr a fe ddiolchodd y Cadeirydd iddo am ei waith

Gofynnodd Aelodau i'r Clerc am ei awgrymiadau o symud ymlaen ar hyn o bryd a hefyd yn y tymor byr a tymor canolig. Eglurodd Clerc y Dref nad oedd angen gwneud penderfyniad heno ond buasai yn fyddiol pe cai ryw fath o arweiniad fel y gallai gynllunio i'r dyfodol.

Mynegwyd pryder am faint o arian cyhoeddus a oedd wedi, ac a fydd eto yn cael ei wario ar ymgynghorwyr ond bu cytundeb cyffredinol bod rhaid gwneud rhywbeth yn y tymor byr neu ganolig I wella cyflwr y Pier ar gwaith cynnal a chadw.

**PENDERFYNWYD** y dylai Clerc y Dref baratoi adroddiad i'r Pwyllgor, erbyn y cyfarfod nesaf os yn bosib, yn rhoi dadansoddiad manwl o'r ariannu neu ariannu a awgrymir am y gwaith o atgyweirio y Pier. Dylai gynnwys hefyd ei argmhelliad a ddylid cyflwyno cais i CTL wedi ei addasu fel yr awgrymir gan Mr O'Rourke neu a ydyw yn bosib gwneud y gwaith gam wrth gam wedi ei ariannu gan gyllid y Cyngor yn unig. Dylai yr adroddiad hefyd gynnwys amcagyfrifon bras o gostau yr ymgynghorwyr ar gwaith i hyn.

#### **102/15 CWBLHAU FFURFLEN ARCHWILIO BLYNYDDOL 2014/2015 –**

Adroddod Clerc y Dref ei fod wedi derbyn llythyr gan yr Archwilwyr Allanol, Hacker Young o Gaer, oedd yn dweud bod y Datganiad Blynyddol o Archwiliad Cyfrifon a Rheolaeth am y flwyddyn 2014/2015 wedi ei chwblhau. Roedd yr Hysbyseb o Gyflawniad yr Archwiliad ar Datganiad o Sicrwydd wedi ei dderbyn ac nad oedd unrhyw wall wedi ei amlygu gan yr Archwiliwr.

Adroddod Clerc y Dref ymhellach bod yna llythyr wedi ei dderbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn enwi yr Archwilwyr Allanol newydd. Eglurodd Clerc y Dref ymhellach fod y trefniadau archwilio yn newid o 2015/2016 ymlaen gan gynnwys mwy o bwys ar reolaeth a buasai y Datganiad Rheolaeth Blynyddol yn cael adranau newydd yn amlygu themau oedd wedi eu hadnabod o archwilio yng Nghymru.

Fel y gellid Cynghorau ddatblygu a newid eu trefniadau rheolaeth byddent yn cael rhag-rybydd or ardaloedd a fyddai yn cael sylw ac felly yn gallu newid neu addasu eu trefniadau erbyn dechrau y flwyddyn ariannol.

Byddai canolbwyntio 2015/2016 ar osod cyllidebau, monitro cyllidebau a cyflogi archwilwyr mewnol.

**PENDERFYNWYD** Nodi adroddiad Clerc y Dref

#### **103/15 ADRODDIADAU/DOGFENNAU A DDERBYNIWYD –**

- a) Adroddiad ar gyfer y Swyddfa Gweinidogion, Gwasanaethau Cyhoeddus – Llywodraeth Cymru. Fel a baratowyd gan Ysgifennydd Gymdeithas Gogledd a Chanolbarth Cymru Cynghorau Lleol
- b) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Adroddiad Blynyddol 2014/2015

Nododd Aelodau bod y dogfennau uchod ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd y Cyngor ac ar y gwefannau perthnasol.

**104/15 PARTNERIAETH CANOL Y DDINAS**

Adroddodd Clerc y Ddinas ar gyfarfod o'r Bartneriaeth a gynhaliwyd ar y 23ain o Fedi lle cafwyd trafodaeth ar ddadansoddiad o'r rhanddeiliaid a briff datblygol, fframwaith i Gomisiwn Datblygu Bangor, ail-gyfeirio arian y Bartneriaeth a hefyd digwyddiadau ar y gweill. Hysbysodd Aelodau bod y rhan nesaf o raglen y Bartneriaeth ar droed a hynny yn golygu datblygu briff i'r ymgynghorwyr Gobeithir bydd y comisiwn yn cychwyn yn Chwefror 2016.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad gan nodi y cynnydd a bod y Cyngor yn parhau i gefnogi a chymeradwyo gwaith y Bartneriaeth

**105/15 MATERION CYLLID - Cyfrifon Chwarterol**

Derbyniodd Aelodau y Cyfrifon Chwarterol am Ebrill, Mai a Mehefin 2015 ar eu newydd wedd drwy becyn meddalwedd Omega Financial. Cododd Aelodau ambell gwstiwn ac fe ymatebodd Clerc y Ddinas. Mynegodd y Clerc bod y system gyllid newydd yn gweithio yn dda ac y buasai o gymorth pan yn paratoi, monitor a chyflawni Cyfrifon Blynyddol, cysoni cyfrifon banc a gwneud taliadau TAW.

**106/15 HER GWYNEDD**

Diweddarwyd Aelodau gan y Cadeirydd ar y Ymgynghoriad Cyhoeddus gan Gyngor Gwynedd i benderfynnu pa wasanaethau lleol i'w gwarchod a pha rhai yn anffodus na fyddai optiwn ond i'w torri oherwydd y sefyllfa gyllidol. Caiff pobol leol y cyfle i ddweud eu dweud ar y toriadau ar lein neu drwy sesiynnau galw i mewn neu fforymau gyda'r nos.

Nodwyd bod y sesiwn galw i mewn ar Dachwedd 23ain rhwng 10y bore ac un y pnawn yn Canolfan Deiniol a bod y fforwm gyda'r nos ar Hydref 12fed yn Ysgol Tryfan.

**PENDERFYNWYD** bod manylion ymgynghoriad Her Gwynedd yn cael ei nodi.

**107/15 BWRDD LLYWODRAETHWYR YSGOL EIN HARGLWYDDES –**

Nodwyd bod yna bellach le gwag ar yr uchod yn dilyn ymddiswyddiad Cynghorydd Rhys Taylor.

**PENDERFYNWYD** bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at bob Aelod o'r Cyngor yn tynnu sylw at y llefydd gwag ar gyrff allanol fel y gallai Aelodau gael cyfle I fynegi diddordeb mewn cael eu enwebu ac y byddai hyn yn cael ei ystyried eto yn y pwyllgor nesaf.

**108/15 CYFETHOLIAD**

Yn unol a chyngor Llywodraeth Cymru bod Cyngor y Ddinas yn ystyried apwyntio Cynrhychiolydd o Undeb y Myfyrwyr y Brifysgol hy. i gyrhychioli pobol ifanc yn y gymuned. Mynegwyd y dylai y cyfle fynd i grwp ehangach na cynrhychiolydd o Undeb y Myfyrwyr ac y buasai rhaid newid y Rheolau Sefydlog. Ymhellach i drafodaeth teimlid y dylid ysgrifennu at holl Ysgolion Uwchradd y Ddinas, Coleg Menai ar Brifysgol i weld os oedd yna ddiddordeb yn hyn.

**PENDERFYNWYD** bod Clerc Y Ddinas yn ysgrifennu at sefydliadau addysgol y Ddinas lle gallai pobol ifanc dros 16oed ddatgan diddordeb cael eu henwebu i fod yn "gynrhychiolwr pobol ifanc" ar Gyngor y Ddinas ond heb hawl i bleidleisio

---

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm

---

**CADEIRYDD**